***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2672 (Cy.236)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Hydref 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Hydref 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Hydref 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 53(1), (2), (4) a (4A), 64(3), 65(4), 143(1) a (2) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freinir bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

(**1**) 1988 p.41.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), gweler y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.